

Dyddiadur WAW

(Wraig ar Wahoddiad)

Roedd yn wahoddiad annisgwyl ond dymunol iawn serch hynny i dderbyn gwahoddiad i fynychu Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Taiwan yn niwedd mis Ebrill. Wedi cyffro'n hymweliad â Mizoram a chael croesawu Côr y Synod o Mizoram yng Nghymru roedd rhywbeth yn afreal braidd mewn gorffod paratoi ar gyfer taith hir arall.

Rwy'n hynod o falch i gael adrodd bod y profiad i gyd wedi bod yn rhagorol – o'r daith allan i Daiwan ar Sul y Pasg hyd at ein taith nôl adre, naw diwrnod yn ddiweddarach. Hoffwn ddiolch i bawb a'n helpodd i drefnu ac i sicrhau bod y trefniadau oll wedi disgyn i'w lle.

Yr oeddem yn rhan o grŵp o westeion rhyngwladol oedd yn ymweld â'r Gymanfa Gyffredinol. A chawsom ein croesawu mewn modd tywysogaidd. Roedd yn llawenydd i gael cyfarfod eto gyda Carys Humphreys sydd wedi gweithio fel cynorthwydd gweinyddol yn Swyddfeydd Eglwys Bresbyteraidd Taiwan (PCT) yn Taipei am dros 30 mlynedd. Ac fe dderbyniodd yr ymwelwyr o Gymru groeso a gofal neilltuol ganddi! Cawsom gyfle i aros dros y penwythnos ar ddiwedd y

gymanfa a chawsom gyfle i ymweld â'r dref lle mae hi'n byw sef Tamsui sydd heb fod ymhell o Taipei. Cawsom gyfle i deithio yno ar reilffordd Metro. Roedd yn brofiad cyffrous. Ac roedd y profiad o brynu tocyn i'r trên yn gyffrous. Rhyw

nghanolfan y Gymanfa oedd wedi ei oeri gan sustem awyru effeithiol. Roedd digonedd o fwyd, ac roedd gwir angen mynd am dro bob gyda'r hwyr!

Ond y digwyddiad mwyaf arbennig oedd ein hymweliad un penwythnos ag un o eglwysi brodorol yn uchel yn y mynyddoedd a hefyd cael treulio pawns yn swyddfeydd yr enwad. Er bod rhwystrau ieithyddol – doedden ni ddim yn siarad unrhyw eiriau Tsieinaidd ac nid oedd llawer o bobl yn siarad Saesneg- teimlwyd cwlwm Cristnogol rhyngom ble bynnag yr aethom.

Dim ond tua 5% o boblogaeth Taiwan sydd yn Gristnogion. Ond mae dros 1,200 o gapeli Presbyteraidd.

Eglwysi ydynt sydd wedi ymrwymo i waith cenhadol, gan wasanaethu pobl beth bynnag fo'u daliadau crefyddol. Thema'r Gymanfa oedd "Aelodau sydd wedi ymrwymo i'w gilydd; Bywydau sy'n tystiolaethu i Grist." Yn y prif anerchiad pwysleisiwyd na ddylai'r awch am rym a phŵer fod ag unrhyw nythle oddi fewn i'r eglwys ond y dylem fod yn cydweithio o blaid cyfiawnder a heddwch. Efallai mai'r geiriau mwyaf cofiadwy oedd y geiriau a

(parhad ar dudalen 2)



Gyda'r cynrychiolwyr rhyngwladol

fath o gylch plastig oedd y tocyn oedd yn cael ei sganio ar ddechrau'r daith cyn cael ei ollwng i flwch ar ddiwedd y daith i'w ailgylchu. Roedd yn hyfryd cael bod mewn tref ar lan yr afon oedd a golygfeydd o fynyddoedd gwyrddion.



Nid yw Taipei yn ddinas hardd a deniadol. Blociau tal a themlau Bwdiaidd yw'r rhan fwyaf o'r adeiladau. Roedd yna ysbryd ddymunol iawn yno, a siopau a bwytai yn aros ar agor yn hwyr i'r nos; ac roedd y strydoedd wedi eu goleuo'n dda a heb sbwriel i amharu ar y profiad. Roedd yn brofiad newydd i ni fedru cerdded y tu allan yn yr awyryngnes ar ôl bod i mewn yng

Cydymdeimlo

Trist yw gorffod cofnodi marwolaeth y Gweinidog hynaws, y Parchedig Griffith Gwilym Jones, Penrhiwllan, Llandysul yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin ar 8fed Mehefin. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Angladd ddydd Sadwrn, 15fed. Mehefin yn breifat, yng Nghapel y Drindod, Aberbanc, a daeaur'r gweddillion ym mynwent Ystrad Fflur.

Parch Stephen Morgan

Gol. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'i deulu ac fe gynhwysir teyrnged lawnach yn y Goleuad yn fuan.

Cydymdeimlo

Cyhoeddwyd gyda thristwch farwolaeth yr Athro Noel Lloyd, Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth. Yng nghanol ei fywyd cyhoeddus prysur bu'n flaenor gweithgar yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth ac yn Gadeirydd Adran Eglwys a Chymdeithas yr enwad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, "Gweddian dros ei deulu a diolchwn am fywyd a chyfraniad sylweddol y Cristion bonheddig, yr ysgolhaig a'r gwladweinydd annwyl yma."

Gol. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrâf â'i deulu a chynhwysir coffâd iddo yn y Goleuad yn fuan.

Dyddiadur WAW (parhad o dudalen 1)

glywyd yn ystod pregeth yn ystod orig o ddefosiwn yn y bore. 'Nid yw'r eglwys yn glwb cymdeithasol i'r dosbarth canol. Mae gennym waith i'w gyflawni.'



Capel Stacis

Gwelsom dystiolaeth o'r math o waith a gyflawnwyd ganddynt. Yn eglwys Stacis yn Yilan (y gynulleidfa frodorol yn y mynyddoedd) caiff henoed sy'n perthyn i'r llwythi brodorol eu bwydo gyda chinio a gweithgareddau gwahanol bob dydd gwaith.

Mae gan yr Ieuenctid weithgareddau iddynt eu hunain yn y capel ar ôl ysgol, ac roedd bwriad hefyd i greu rhywbeth addas i famau ifanc yn y dyfodol agos. Dywedodd gwraig y gweinidog yno bod gwasanaethu eraill wedi adfywio'r eglwys yno. Rhywbeth i ni gnoi cil arno efallai?

Roedd yr addoliad yn y capel yn ddyrchafol ac yn arbennig gan ei fod yn dathlu'r Atgyfodiad. Wedi'r gwasanaeth cafwyd ras "Rhedeg er mwyn Iesu" oedd yn ffordd o dystiolaethu i'r efengyl. Gan ei fod yn ddiwrnod poeth iawn penderfynodd Brian a mi gerdded rhan o'r daith oedd tipyn byrrach na'r ras!

Y mae Eglwys Bresbyteraidd Taiwan wedi gweithredu i amddiffyn hawliau dynol yn arbennig yn ystod cyfnod tywyll o reolaeth filwrol yn y wlad. Y mae'n weithgar iawn yn Fforwm Ecwmenaidd Cyfiawnder a Heddwch a hynny er mwyn medru gweithio dros gyfiawnder gydag eglwysi sy'n bartneriaid yn Asia, Ewrob ag America.



Beryl a Brian Matthews

Hyd yn oed ar ôl cipolwg sydyn i fywyd yr eglwys yma cefais fy ysbrydoli gan yr hyn y maent eisoes wedi ei gyflawni a chan eu gweledigaeth. Yr ydym ninnau 'n byw mewn gwlad sydd mewn enw'n "Gristnogol". Ond lleiafrif bychan ydym ni ac fel lleiafrif mae angen i ninnau ddarganfod ffyrdd o dystio i gariad Iesu mewn byd syrthiedig a dolurus.

Beryl Matthews

Llawenhau yn Llanfair Pwll

Cawsom gyfarfod bendithiol iawn i ddiweddu wythnos Cymorth Cristnogol yn Eglwys Unedig Rhos y Gad Llanfairpwll gyda chyfraniad gan y tair merch a welir yn y lluniau – gweler eu henwau isod:

Bethan Edwards o Langefni sydd yn mynd i Gyprus yn fuan iawn gyda'i thad i roi cymorth i ffoduriaid yno.

Llinos Edwards sy'n gweithio i Gymorth Cristnogol a soniodd am y gwaith pwysig mae'r elusen yn ei wneud mewn gwahanol wledydd.

Angharad Mai Williams a soniodd am ei thaith i Fiji llynedd gyda 'Teacher Travel' ag sydd yn gobeithio mynd i Ynysoedd Cook yn nes ymlaen eleni.

Diolch i'r tair am eu cyfraniad. Ysbrydoledig yn wir!

John Edwards, Ysgrifennydd



Oedfa Ordeinio Blaenor Newydd yn Henaduriaeth Gogledd Ddwyrain

Cynhaliwyd oedfa arbennig o dan nawdd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yn Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl ar Fai 23ain i ordeinio blaenor newydd. Mae Miss Ann Davies o Eglwys y Berthen, Licswm wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar ar hyd y blynyddoedd a braf oedd ei gweld yn derbyn y cyfrifoldeb o fod yn flaenores.



Parch. Ddr. Athro D Ben Rees yn ymddiddan â Miss Ann Davies

Bu'r Parch. Ddr. Athro D. Ben Rees ymddiddan ag Ann ac yn gofyn iddi am ei chefnid crefyddol, y dylanwadau pwysig ar ei ffydd ac am ei gobeithion am y dyfodol.

Mrs. Cynthia Owen, Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd a'r Parchedig Eirlys Gruffydd-Evans, Llywydd yr Henaduriaeth oedd yn gyfrifol am yr ordeinio gyda chyfraniadau gan Mrs. Shân Morris a Mrs. Nesta Davies, chwaer Ann. Cafwyd cyfle yn ystod yr oedfa i longyfarch Mr. Caradoc Jones, Caersalem, Fflint ac Mr. Elwyn Evans, Oaker Avenue, Manceinion am eu gwasanaeth fel blaenoriaid am 40 mlynedd. Nid oedd Mr Tudur Beech, Llandegla yn medru dod i'r gwasanaeth iddo gael ei longyfarch am ei wasanaeth am dros 70 mlynedd ond cafwyd gair o werthfawrogiad teilwng iddo gan Mr. Prysor Williams.



Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd yn llongyfarch Caradoc Jones ac Elwyn Evans

Diolch am y sawl sydd "byth yn eu gwaith yn drist".

John Williams, Bethel, Lerpwl.